

Adfent 2018

'Ymhyfryda yn ofn yr Arglwydd...'

Myfrio am Fyfrio

'Tymor yw cyfnod yr Adfent pan fyddwn mewn nifer o gapeli ac eglwysi yn disgwyl ac yn paratoi am ddathliadau'r Geni, ac yn edrych ymlaen am Ail ddyfodiad yr Arglwydd Iesu. Profwn y wefr flynyddol o olrhain yr hanes trwy Broffwydi'r Hen Destament a gweld dyfodiad Iesu yn wireddiad o'r holl broffwydoliaethau. Daw Bethlehem a gweinidogaeth Crist ar y ddaear yn fyw unwaith eto. Ar ôl dwy fil o flynyddoedd, daliwn i ddathlu ei ddyfodiad a daliwn i ddisgwyl am ei ail ddyfodiad yr amser pan ddaw i farnu'r byw a'r meirw. Ond beth am ein presennol? A ydyn ni mewn peryg o golli golwg ar ein HEDDIW a dweud nad oes fawr ddim yn digwydd yn ein HEDDIW?

Tybed?

Mae cymaint o bobl ddigartref yn byw ar ein strydoedd heddiw ac yn ceisio cysgodi mewn drws siop, ar fainc mewn parc neu rywle sy'n cynnig lloches dros dro. Adroddodd Tom Gordon, gweithiwr yn Eglwys yr Alban, am ddyn a weithiodd yn hwyr noswyl Nadolig ac a aeth o'i swyddfa am wyth y nos i nôl brechdan iddo'i hun mewn siop gyfagos. Wrth gamu o glydwch y swyddfa teimlodd ias yr oerfel yn brathu. Wrth godi coler ei got fawr bu bron iddo faglu dros bentwr o ddillad wrth gamu o ddrws y swyddfa i'r

palmant. Symudodd y pentwr dillad oddi wrtho gan glosio'n nes at y wal a dweud, 'Sori syr, ro'n i'n tybio fod pawb wedi mynd am adre... Dyna sy'n digwydd fel arfer.'



*'ymhyfryda yn ofn yr ARGLWYDD.
Nid wrth yr hyn a wêl y barna,
ac nid wrth yr hyn a glyw y dyfarna,
ond fe farna'r tlawd yn gyfiawn
a dyfarnu'n uniawn i rai anghenus y ddaear.'*

Roedd y ferch ifanc wedi bod yma o'r blaen.

Camodd y gŵr i gyfeiriad y siop.

Wedi iddo gyrraedd y siop roedd y rhes yn y siop yn un faith felly cododd bapur newydd gan ddigwydd taro ar bennawd, myfyrdod, Munud i Feddwl.

Hanes trempyn oedd yno, ar adeg y Nadolig, yn eistedd ar fainc yng nghanol tyrfa o siopwyr. Roedd ganddo sach gerllaw iddo a blerwch ei feddiannau wedi eu gosod rywsut rywsut o'i

gwmpas. Darn o fara sych oedd ei frecwast ac am bob cegaidd o fara a fwytai byddai'n rhannu'r un faint gyda'r adar, ac yn gwenu wrth wneud. Yn dawel fach casglodd nifer o adar bach wrth ei draed gan bigo'n ddyfal ar y briwsion. Gorffennwyd darllen y stori, prynwyd y nwyddau a dychwelodd y gŵr i'w swyddfa gyda dwy frechdan, dwy gacen, dwy fanana, dwy ddiad a dau faryn o siocled i'w rhannu gyda'r 'pentwr dillad' wrth fynediad ei swyddfa.

Oedd roedd wedi darganfod ystyr y Nadolig ... HEDDIW.

Mae cyfnod yr Adfent yn nodweddu agwedd yr eglwys heddiw wrth i bobl Dduw ddisgwyl yn eiddgar am Ail Ddyfodiad Crist yn ei ogoniant. Mae'r eglwys mewn sefyllfa debyg i un Israel ar ddiwedd yr Hen Destament. Maen nhw'n alltud yn aros ac yn gobeithio yn weddïgar am ddyfodiad y Meseia. Roedd Israel hefyd yn edrych i'r gorffennol er mwyn diolch am eu gwaredigaeth o'r Aifft. Yn yr un modd mae'r eglwys, yn ystod Adfent, yn dathlu dyfodiad y Mab ym Methlehem ac yn aros am yr amser y daw i gasglu ei bobl ynghyd.

Ruth Wynne.

Trin y loes sy'n Lesotho

Fel y cawsom gyfle i nodi yn rhifyn 23 Tachwedd yn y Goleuad mae gan y Chwiorydd ddi-ddordeb arbennig mewn cefnogi cenhadaeth – boed hynny gartref neu dramor. Heblaw am gefnogi gwaith yn Romania rydym hefyd yn ceisio cefnogi gwaith yn Ysbyty Tebellong, Lesotho. Mae'r ffilm a gynhyrchwyd gennym am y gwaith yn Lesotho yn dilyn taith Dr Graham Thomas o'r Bala i Lesotho. Beth am ei lawrlwytho a'i ddangos mewn oedfa neu gyfarfod yn eich capel chi? Byddwch yn rhyfeddu ac yn ymfalchio wrth weld sut mae casgliad cenhadol y Chwiorydd yn gwneud gwahaniaeth ym mywydau dros y byd.

Ewch i wefan EBC neu dilynwch y ddolen www.vimeo.com/297181277.

Sarah Morris

